

Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



Wythnos yma

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yfory yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Eleni, am y tro cyntaf, mae pob un disgybl sydd am gystadlu yn yr Eisteddfod yn cael cyfle i wneud. Mae dros 100 o ddisgyblion yn cystadlu yfory ac rydym yn falch iawn o ymdrech pawb! Diolch i'r staff sydd wedi bod yn hyfforddi'r disgyblion ar gyfer yr Eisteddfod a diolch i chi rheini am eich cefnogaeth. Pob hwyl hefyd i'r partïon unsain, yr ymgomiau a'r parti llefaru fydd yn cystadlu yfory. Rydym wedi danfon llythyr atoch yn sôn am drefniadau dydd Sadwrn ac amserlen y dydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu am gymorth pellach, cysylltwch gyda swyddfa'r ysgol.

Diwrnod y Llyfr

Ddoe, cawsom ddiwrnod hyfryd yn yr ysgol yn dathlu Diwrnod y Llyfr. Daeth y disgyblion a'r staff i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o'u hoff lyfr. Roedd nifer o weithgareddau wedi eu trefnu yn ystod y dydd yn cynnwys gweithdai gan Anni Llyn a Jo Lindley. Diolch i Miss Lewis a'r staff am drefnu'r diwrnod ac i'r GRhA am drefnu'r stondin lyfrau.

Taclo'r Tywydd

Dydd Gwener cyn hanner tymor aeth disgyblion blwyddyn 5 i gystadlu mewn rhaglen newydd sbon, "Taclo'r Tywydd". Cafodd y disgyblion amser arbennig ac roedd S4C wedi canmol ei ymddygiad a'u cwrtseisi, da iawn chi blant! Bydd y rhaglen yn cael ei ddarlledu ar S4C ym mis Medi ac yn y flwyddyn newydd.

Ymweliad Ysgol Kitchener

Roedd yn hyfryd wythnos yma i groesawu disgyblion o Ysgol Kitchener i'r ysgol. Mae blwyddyn 4 wedi bod mewn cyswllt gyda'u ffrindiau yn Ysgol Kitchener ac roedd yn hyfryd eu croesawu i'r ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cawsom wled o berfformiadau gan Ysgol Kitchener a disgyblion Ysgol Treganna ac edrychwn ymlaen yn fawr at yr ymweliad nesaf.

Y Nyth

Cafwyd sesiwn brysur iawn gyda'n Nyrs Ysgol bore 'ma! Diolch o galon am eich cefnogaeth, ac edrychwn ymlaen at groesawu Anna'n ôl cyn hir.

Calendr



**Seremoni
wobrwyo'r
Siarter Iaith
11/3/25**

**Eisteddfod
Ddawns
13/3/25**

**Eisteddfod
Ysgol
Treganna
13/3/25**

**Disgo'r GRhA
20/3/25**

Cwlwm Rhieni Tymor y Gwanwyn

CWLWM RHieni TREGANNA 2024-25

Cyfeirnod
Y Teulu
Uchelgeiriau

CWLWM RHieni - DARLLEN

- Rydyn ni angen eich cyngor, cefnogaeth ac arbenigedd yn yr ysgol.
- Ymunwch â ni yn "Nyth" Ysgol Treganna am Gwlwm Rhieni nesaf yr ysgol - CWLWM DARLLEN.
- Rydyn ni eisiau ceisio annog syniadau am sut i ddatblygu ein cefnogaeth o ddarllen yn yr ysgol. Oes gyda chi syniadau neu arbenigedd sut i ddatblygu hyn ymhellach?
- Dewch i gyfrannu gyda'ch syniadau am sut fedrwn ni gynnig cymorth, datblygu a sicrhau fod yr ysgol yn datblygu darllenwr da ym mha bynnag iaith.



PRYD?

Ebrill yr 8fed

1.30 - 2.00

PWY?

- Rhieni a gwarcheidwaid.
- Cyn-rieni.
- Aelodau o gymuned ehangach yr ysgol.

Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi - dydd Iau, Mawrth y 13eg.

Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn cynnal ein Eisteddfod ysgol ar y diwrnod yma. Yn yr Eisteddfod byddwn yn gwobrwyo storiâu, barddoniaeth a gwaith celf y disgyblion. Byddwn hefyd yn cadeirio'r bardd buddugol! Croeso i'r disgyblion wisgo dillad coch i'r ysgol neu wisg Gymreig draddodiadol.

Y GRhA

Ffair Lyfrau Diwrnod y Llyfr

Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu'r stondin lyfrau wythnos yma. Diolch i chi am eich rhoddion hael ac am brynu'r llyfrau!

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at brynu offer iard ac adnoddau ar gyfer ardaloedd allanol bob dosbarth.

Disgo'r GRhA

Bydd y GRhA yn trefnu disgo Pasg ar nos Iau yr 20fed o Fawrth. Bydd disco disgyblion y dosbarth Derbyn/ BI 1 o 3.30 - 4.15, disco disgyblion BI 2 a 3 4.30 - 5.15 a disco BI 4,5 a 6 5.30 - 6.15. Bydd gwirfoddolwyr o'r GRhA a staff yr ysgol yn gofalu ar ôl y disgyblion felly nid oes angen i chi fel rhieni i aros.

Bydd tocynnau'r disgo ar werth ar Parent Pay o ddydd Llun y 10fed o Fawrth. Diolch i'r GRhA am eu holl waith caled ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau'r tymor.

Bws Beic

Dyddiad y Bws Beic nesaf fydd dydd Gwener yr 28ain o Fawrth. Rydym yn gyffrous oherwydd mae cwmni teledu Ceidiog yn dod i ffilmio Bws Beic Treganna ar gyfer eu rhaglen "Ne-wff-ion".

Bydd aelodau o fws beic yr ysgol yn cyfrannu at y rhaglen a bydd y camerâu yn dilyn y bws beic o barc Thompson yr holl ffordd i Ysgol Treganna. Bydd y Bws Beic yma hefyd yn wahanol, oherwydd am y tro cyntaf byddwn yn cynnig i deuluoedd Treganna gychwyn o barc Fictoria yn ogystal â pharc Thompson a Chapter.

Diolch i'r holl wirfoddolwr sy'n gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant y Bws Beic. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddydd Gwener yr 28ain o Fawrth.

Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.



Diolch



Thank you

Patrwm iaith yr wythnos

Patrwm iaith yr wythnos

Hoffwn i (berf)

Her

Pan fyddai'n hŷn, hoffwn i fod yn...

Testun trafod yr wythnos

Pan dwi'n gwyllo'r teledu, does dim yn well na...

Cân yr wythnos

Tara Bandito- Iwnicom

Idiom yr wythnos

Yn cerdded ling di long

